**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu – Datblygu ac Adfywio

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Mawrth, 11 Gorffennaf 2023 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C A Holley (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | P R Hood-Williams | L James |
| D H Jenkins | M H Jones | S M Jones |
| J W Jones | M W Locke | W G Thomas |
| M S Tribe | T M White | |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| Y Cyng. Robert Francis-Davies | Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth |
| Lisa Mart | Cyfarwyddwr Lleoliad yn Arena Abertawe |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Phillip Holmes | Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas |
| Huw Mowbray | Rheolwr Strategol Datblygu ac Adfywio Ffisegol |
| Lee Richards | Arweinydd Tîm Canol y Ddinas |
| Rachel Percival | Scrutiny Officer |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): P M Black

---

## 1 Cadarnhau Cynullydd

Cadarnhawyd y Cynghorydd Chris Holley fel Cynullydd y Panel Datblygu ac Adfywio ar gyfer 2023-24.

## 2 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Nid oedd unrhyw ddatgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

## 3 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim.

## 4 Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod blaenorol.

## 5 Cwestiynau gan y Cyhoedd

Derbyniwyd y cwestiynau canlynol gan aelodau'r cyhoedd ac ymatebodd Lee Richards.
Cwestiwn 1 - Yng nghyfarfod y Panel Craffu Perfformiad Datblygu ac Adfywio ar 20 Mawrth roedd cyfeiriad at 'ymateb cadarnhaol' yn y cyfarfodydd ymgynghori. Nid yw hyn yn sôn am wrthwynebiad sylweddol mewn cyfarfodydd. A all yr agwedd hon gael ei chrybwyll?

YMATEB - *"Mae cefnogaeth eithaf sylweddol i'r cynllun ac i'r holl gynlluniau, bydd rhywfaint o wrthwynebiad. Ond ymholiadau yn bennaf oedd y sylwadau gwrthwynebol a ddarparwyd. Darparwyd yr wybodaeth hon i ni gan Skyline gan nad y cyngor yw'r datblygwr yn yr achos hwn. Dim ond i atgoffa pawb mai'r cyfan rydym ni'n ei wneud yw galluogi a rhentu'r tir i Skyline. Felly, mae'r wybodaeth y maent wedi'i darparu a'r wybodaeth hon yn rhan o'u pecyn sef yr ymgynghoriad cyn cyflwyno cais. Mae'n cefnogi eu cais cynllunio, sy'n rhestru'r holl gwestiynau a godwyd yn ystod y cyfarfod a'r atebion fel rhan o'r digwyddiad ymgynghori. Roedd nifer o'r cwestiynau yn ymwneud â phethau fel beth yw'r prisiau a fydd yn berthnasol i'r cynllun, a chwestiynau ar fynediad ac ecoleg. Felly, dyna oedd y prif gwestiynau a ofynnwyd gan y gwahanol bartïon a oedd yn bresennol yn y digwyddiad."*

Cwestiwn 2 - Dywedwyd wrthym yn yr ymgynghoriad bod y tocyn blynyddol a grybwyllwyd ar gyfer preswylwyr Abertawe yn berthnasol i daith gondola yn unig (a dyma'r hyn rwyf wedi ei weld yn cael ei hysbysebu). Nid oedd y prisiau ar gyfer 'atyniadau' eraill wedi'u pennu eto. A ellir gwneud hyn yn glir ar lefel graffu?

YMATEB - *"Mae datganiad a ddarperir gan Skyline yn darllen - mae cynllun prisio yn cael ei ddatblygu ar hyn o bryd gyda'r bwriad o sicrhau y bydd pawb yn gallu mwynhau gwahanol agweddau ar yr atyniad. Er eu bod yn gweithio ar hwn ar hyn o bryd, maen nhw'n gobeithio gallu ei gyhoeddi a'i rannu â phawb yn fuan."*

Cwestiwn 3 - Mae datganiadau i'r wasg yn dangos bod Llywodraeth Cymru wedi dyfarnu £4 miliwn yn hytrach na £3 miliwn i'r cynllun.

YMATEB - *"£4 miliwn ydyw mewn gwirionedd ac mae hynny wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru - o'r £4 miliwn, mae £3 miliwn ohono yn arian grant ac mae £1 miliwn ohono'n fenthyciad".*

## 6 Y diweddaraf am Arena Abertawe

Roedd Robert Francis-Davies, Aelod y Cabinet dros Fuddsoddi, Adfywio, Digwyddiadau a Thwristiaeth, swyddogion a Lisa Mart o Arena Abertawe yn bresennol i drafod yr eitem. Gwnaed y pwyntiau canlynol -

- Mae'r Arena wedi perfformio'n well na'r disgwyl ac wedi cyflawni lefel ddeiliadaeth o 78.9%, sy'n fwy na'r amcanestyniad o 65% yn y flwyddyn gyntaf.
- Gwerthwyd 241,000 o docynnau ar gyfer digwyddiadau a chafwyd 74 o berfformiadau ym mlwyddyn un sy'n gyson neu'n uwch na lleoliadau mwy

sefydledig eraill o faint tebyg. Er bod hyn yn llai na'r hyn a nodwyd yn y cynllun busnes, mae ffigurau deiliadaeth wedi bod yn uwch felly mae refeniw wedi cyfartaleddu.
- Mae hyblygrwydd y lleoliad a chyflymder y newid drosodd rhwng perfformiadau wedi bod yn ased.
- Cafwyd adborth cadarnhaol yn benodol ynghylch digwyddiadau cerddoriaeth, sain a chyfleusterau cefn y tŷ.
- Mae'r heriau yn ystod y flwyddyn gyntaf wedi cynnwys costau cyfleustodau, rhwystrau bach, ymgyfarwyddo â thechnoleg/gweithrediad y lleoliad.
- Mae'r gwasanaeth bar a threfniadau gadael y maes parcio wedi'u gwella ar ôl derbyn adborth, ond, yn gyffredinol, mae nifer y cwynion wedi bod yn isel.
- Mae'r Arena yn gweithio mewn cydlyniant â lleoliadau lleol eraill ac mae ganddi berthynas gref gyda hwy, gan gynnwys Neuadd Albert, sy'n agor cyn bo hir.
- Mae perfformwyr wedi rhoi adborth cadarnhaol gyda rhai perfformwyr yn dychwelyd.
- Telir rhent i'r cyngor a thâl gwasanaeth ar gyfer Bae Copr yn ogystal â chyfran o werthiant y tocynnau ac elw o lolfeydd VIP. Mae hyn cyn rhannu'r elw maes o law.
- Mae'r Arena wedi chwarae rôl allweddol wrth ddenu datblygwyr eraill i Abertawe.

7 **Adroddiad Monitro Rhaglenni/Prosiectau Adfywio**

Cyflwynwyd yr adroddiad diweddaraf ar raglen/prosiectau adfywio i'r Panel. Rhoddodd swyddogion yr wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

<u>Bae Copr:</u>
- Mae cynnydd yn cael ei wneud i gwblhau'r gwaith.
- Bydd y gwaith o baentio'r gwaith dur wedi'i gwblhau erbyn diwedd 2023.
- Mae unedau masnachol yn agos at eu cwblhau. Mae diddordeb mawr wedi bod mewn gosod y rhain.

<u>Adfywio Abertawe</u>
- Mae Urban Splash yn datblygu'r uwchgynllun yn St Thomas.
- Yn yr Hafod mae Urban Splash wedi penodi penseiri i edrych ar yr uwchgynllun mewn partneriaeth â Chyngor Abertawe.
- Mae ceisiadau ar gyfer y Gronfa Ffyniant Gyffredin yn aros am ganlyniadau yn fuan ac mae Comisiwn Dylunio Cymru wedi bod yn ymgysylltu â nhw.

<u>Gogledd Abertawe Ganolog</u>
- Cafwyd ymgysylltu cadarnhaol â thenantiaid ar gyfer y swyddfeydd 350,000 troedfedd a cham 1 y dyluniadau sydd wedi'u cwblhau.
- Mae cynnydd yn cael ei wneud gan gynnwys cynnal cyfarfodydd gyda chyllidwyr.

<u>71-72 Ffordd y Brenin</u>
- Mae'r adeilad wedi cyrraedd lefel y 4ydd llawr a disgwylir iddo gael ei gwblhau'n brydlon.
- Mae diddordeb gan ddarpar breswylwyr.
- Mae adeilad Barclays cyfagos yn debygol o gael ei farchnata i'r sector preifat.
- Bydd hyn yn ategu'r datblygiad bioffilig *Hacer* cyfagos.

- Mae cyfleusterau parcio beiciau a gwefru beiciau trydan wedi'u cynnwys yn y gwaith adeiladu.
- Mae trafodaethau'n cael eu cynnal ynglŷn â mynedfa ochr i mewn i Arcêd Picton.

<u>Sgwâr y Castell</u>
- Mae tendrau contract yn cael eu dadansoddi a disgwylir i'r gwaith ddechrau ar y safle yn gynnar yn 2024.
- Cafwyd arian gan Gyngor Abertawe ynghyd â Grant Llywodraeth Cymru drwy Drawsnewid Trefi.

<u>Skyline</u>
- Mae'r cyngor yn aros am ganlyniad cofrestru tir ac mae Skyline yn paratoi ar gyfer y cais cynllunio.

<u>Ailddatblygu Pwerdy Gwaith Copr yr Hafod</u>
- Mae hyn wedi'i gyflawni ac mae'r agoriad swyddogol ar fin digwydd.

<u>Theatr y Palace</u>
- Mae'r datblygiad sector preifat hwn yn mynd rhagddo.

<u>Cronfa Codi'r Gwastad – Cwm Tawe Isaf</u>
- Mae adroddiad diweddar *Colliers* yn dangos bod gan Abertawe botensial ar gyfer dros 300 o ystafelloedd gwestai. Mae diddordeb gan weithredwyr gwestai hefyd.
- Amcangyfrifir y bydd y gwaith ar adeilad y labordy yn dechrau yr haf hwn.

8 **Adolygiad Blynyddol**

Nododd y Panel y dogfennau adolygu blynyddol.

9 **Llythyrau**

Dywedodd y Cadeirydd wrth y Panel am uno posib y Panel Craffu Perfformiad Gwella Gwasanaethau a Chyllid a'r Panel Craffu Perfformiad Datblygu ac Adfywio. Caiff hwn ei gynnig yng nghyfarfod nesaf Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 18 Gorffennaf ac os cytunir arno dyma fydd cyfarfod olaf y Panel Craffu Perfformiad Datblygu ac Adfywio.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.36pm

**Cadeirydd**